

Hybu'r Egwyddorion Craidd

- 1 Rhoi ein cleifion a defnyddwyr ein gwasanaethau yn gyntaf

Byddaf yn:

- 2 Ceisio gwella ein gofal

Byddaf yn:

- 3 Canolbwyntio ar lesiant ac atal

Byddaf yn:

- 4 Ystyried ein profiadau a dysgu oddi wrthynt

Byddaf yn:

- 5 Gweithio mewn partneriaeth ac fel tîm

Byddaf yn:

- 6 Gwerthfawrogi pawb sy'n gweithio i'r GIG

Byddaf yn:

Sut mae'r Egwyddorion Craidd yn berthnasol i werthoedd fy sefydliad ac i egwyddorion gofal iechyd darbodus?

Mae ein Hegwyddorion Craidd yn disgrifio sut rydym yn disgwyl i bawb yn y GIG yng Nghymru ymddwyn. Maent wedi cael eu datblygu i gefnogi ein gwaith cenedlaethol a lleol, ac maent yn cynnig canllaw o ran y ffordd y dylem weithio ym mhob rhan o GIG Cymru. Maent yno i'n helpu i sicrhau'r ansawdd gorau posibl ym mhopeth a wnawn.

Mae'r Egwyddorion yn ganolog i waith GIG Cymru ac maent yn atgyfnerthu gwerthoedd ac ymddygiadau eich sefydliad. Maent wedi'u seilio ar y cysyniad o ofal iechyd darbodus. Rydym ni, yr unigolion a'r timau sy'n gweithredu yn y GIG yng Nghymru, yn disgwyl cyflawni'n swyddogaethau gydag ymrwymiad cadarn i'r bobl sy'n defnyddio'r GIG, drwy roi'r Egwyddorion Craidd hyn ar waith.

Pedair egwyddor gofal iechyd darbodus



Beth nesaf?

Rydym am i bob rhan o GIG Cymru wybod am yr Egwyddorion, er mwyn iddynt ddod yn rhan o'n gwaith o ddydd i ddydd, drwy:


- Sicrhau bod gwerthoedd ac ymddygiadau gwasanaethau cyhoeddus cenedlaethol a lleol yn gyson â'i gilydd.
- Cefnogi llywodraethu da a helpu i sicrhau'r ansawdd uchaf posibl yn y GIG yng Nghymru.
- Defnyddio'r Egwyddorion i ddatblygu dull mwy syml a chyson o reoli materion cyflogaeth. Rydym yn canolbwyntio ar ddatrys problemau'n gyflym.
- Ymgorffori'r egwyddorion yn y polisïau sy'n cael eu datblygu ar gyfer y gweithlu a'u hadolygu ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.
- Dod o hyd i ffordd o atgyfnerthu'r Egwyddorion Craidd ym mhrif bolisïau a gweithdrefnau'r gweithlu e.e. wrth arfarnu, recriwtio a hyfforddi staff.

I'ch dwylo chi...

Gallwch chi helpu i hybu ac ymgorffori'r Egwyddorion:


- Llenwch y ffurflen 'Hybu'r Egwyddorion Craidd' ar y daflen hon.
- Poster yw'r tu mewn i'r daflen hon. Gallwch ei arddangos yn eich gweithle.
- Trafodwch yr Egwyddorion gyda chydweithwyr.
- Adolygwch yr Egwyddorion gyda'ch rheolwr.
- Ceisiwch ddilyn yr Egwyddorion bob dydd.


#EgwyddorionCraidd



Egwyddorion Craidd

Datblygwyd yr Egwyddorion Craidd i helpu a chefnogi staff GIG Cymru





1 Rydym yn rhoi cleifion a defnyddwyr ein gwasanaethau yn gyntaf

Rydym yn gweithio gyda'r cyhoedd a chleifion/ defnyddwyr gwasanaethau drwy gyd-gynhyrchu, gan wneud yr hyn sydd ei angen yn unig, dim mwy, dim llai a pheidio â gwneud dim niwed. Rydym yn onest, yn agored, yn llawn empathi ac yn dosturiol. Rydym yn sicrhau ansawdd a diogelwch yn fwy na dim arall drwy ddarparu'r gofal gorau posibl ar bob achlysur.



2 Rydym yn ceisio gwella ein gofal

Rydym yn gofalu am y rhai sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol posibl o'r holl sgiliau ac adnoddau a chan wneud ymdrech barhaus i sicrhau bod y gofal a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n addas ar gyfer anghenion y defnyddwyr. Rydym yn gwella ein gwaith bob dydd, drwy fod yn agored i newid ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan leihau niwed a gwastraff.



4 Rydym yn ystyried ac yn dysgu o'n profiadau

Rydym yn buddsoddi mewn dysgu a datblygu. Rydym yn gwneud penderfyniadau sy'n fanteisiol i gleifion a defnyddwyr ein gwasanaethau drwy ddefnyddio adnoddau, systemau ac amgylcheddau sy'n caniatáu i ni weithio'n fedrus, yn ddiogel ac yn effeithiol. Rydym yn ddyfeisgar, yn addasu ac yn lleihau amrywiadau amhriodol gan ystyried y sylfaen briodol o dystiolaeth i'n harwain.



5 Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ac fel tîm

Rydym yn gweithio gydag unigolion, gan gynnwys cleifion, cydweithwyr a sefydliadau eraill; gan ymfalchïo yn ein gwaith, gwerthfawrogi a pharchu ein gilydd, bod yn onest ac yn agored a gwrandao ar gyfraniad eraill. Rydym yn ceisio datrys anghytundeb yn effeithiol ac yn gyflym, ac nid ydym yn goddef bwllo neu erledigaeth o unrhyw glaf, defnyddiwr gwasanaeth neu aelod staff.

Egwyddorion
Craidd GIG Cymru




3 Rydym yn canolbwyntio ar lesiant ac atal

Rydym yn ceisio gwella iechyd a chael gwared ag anghydraddoldebau drwy gydweithio gyda phobl Cymru i sicrhau eu llesiant heddiw ac ar gyfer y blynyddoedd a'r cenedlaethau i ddod.



6 Rydym yn gwerthfawrogi pawb sy'n gweithio i'r GIG

Rydym yn cefnogi'n holl gydweithwyr wrth iddynt wneud y swyddi maent wedi cytuno i'w gwneud. Byddwn yn gofyn yn rheolaidd beth sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith yn well, ac yn ceisio darparu'r cyfleusterau angenrheidiol i ragori yn y gofal y maent yn ei roi. Byddwn yn gwrandao ar ein cydweithwyr ac yn gweithredu ar eu hadborth a'u pryderon.

Pam y Datblygwyd yr Egwyddorion Craidd?

Datblygwyd yr Egwyddorion i helpu a chefnogi staff GIG Cymru.

Maent yn disgrifio sut y gallwn gydweithio i sicrhau bod ein gwaith, a'n ffordd o weithio, yn seiliedig ar ddiben cyffredin.

Mae GIG Cymru'n gwerthfawrogi pob aelod o'i staff - o Gymru, y DU a'r UE, a gwladolion tramor o wledydd y tu allan i'r UE. Pobl sy'n bwysig i'r GIG, rydym yn gweithio gyda phobl i ofalu am bobl. Dyna'n gwaith a'r rheswm dros ein bodolaeth. Rydym o dan bwysau i ddarparu rhagor o wasanaethau, gwell canlyniadau, a chynnal a gwella ansawdd gan ddelio â'r canlynol ar yr un pryd:

- heriau cyllidol sylweddol
- lefel uchel o ddisgwyliad gan y cyhoedd
- poblogaeth sy'n heneiddio a lefelau uwch o gyflyrau cronig.

Datblygwyd yr Egwyddorion hyn i helpu staff i ymateb yn well i'r gofynion hyn. Byddant hefyd yn helpu i adfer cydbwysedd yn y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd. Felly, rydym yn llai dibynnol ar y broses, ac yn cael ein harwain gan yr Egwyddorion hyn wrth weithredu polisïau a gweithdrefnau.

Mae'r Egwyddorion hyn yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i gryfhau gwerthoedd ac ymddygiad Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. Cawsant eu datblygu mewn partneriaeth gyda chyflogwyr a chynrychiolwyr staff.

